

Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2018-2019

Chwefror 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2018-2019

Chwefror 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae goruchwylio llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddff Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Cruffydd AC

Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AC

Plaid Cymru
Ynys Môn



Alun Davies AC

Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Neil Hamilton AC

UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mike Hedges AC

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Rhianon Passmore AC

Llafur Cymru
Islwyn



Nick Ramsay AC

Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Cynnwys

Argymhellion a chasgliadau.....	5
Trosolwg	7
1. Strategaeth a chynllunio.....	9
2. Iechyd a Gofal Cymdeithasol	14
3. Yr Economi a Thrafnidiaeth	18
4. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.....	21
5. Brexit.....	23
6. Comisiwn y Cynulliad	27
7. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	29
Atodiad: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Memorandwm Esboniadol 2il Gyllideb Atodol 2018-19.....	31

Argymhellion a chasgliadau

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cynllun pennu amcanion cynhwysfawr ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, o ran cyllidebu, erbyn diwedd y Cynulliad hwn..... Tudalen 12

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys ei gwybodaeth am y gyllideb atodol yn y dyfodol gyda'r bwriad o gysoni ei naratif yn nes â'r cyllidebau drafft a therfynol..... Tudalen 13

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am lefel gyffredinol cronfa wrth gefn Cymru yn ei holl naratifau cyllidebol..... Tudalen 13

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwaith cynllunio ariannol yn cyfrif am wariant rhagweladwy ar bwysau'r gaeaf cyn gynted â phosibl yn y broses gyllidebu..... Tudalen 17

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch lefel y cyllid sy'n cael ei neilltuo i brosiect pan fo cymaint o ansicrwydd ac yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o fanylion ar y gwaith cynllunio ar gyfer yr M4. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurder ynghylch a fuasai angen y cyllid ychwanegol pe bai penderfyniad wedi'i wneud ar yr adeg y bwriadwyd yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2018, a faint o arian ychwanegol y gall fod angen ei neilltuo cyn y gwneir penderfyniad..... Tudalen 20

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch i fwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4 neu beidio ond, os mai'r bwriad yw bwrw ymlaen â'r cynllun, y byddai'n argymhell bod y Gweinidog Cyllid a'r Prif Weinidog yn dechrau trafodaethau ar gynllun ariannu tymor hir ar gyfer ffordd liniaru'r M4..... Tudalen 20

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad y cynllun ymadael gwirfoddol, sy'n cynnwys sut y defnyddiwyd y cyllid, faint o bobl a adawodd y sefydliad, faint o swyddi Brexit a gafodd eu creu a pha arbedion a gyflawnwyd neu a fydd yn cael eu cyflawni..... Tudalen 22

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu naratif mor llawn â phosibl yn ei chyllidebau yn y dyfodol ar ei gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE..... Tudalen 26

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth ym Memorandwm Esboniadol Cyllideb Atodol 2018-19 Comisiwn y Cynulliad, ac mae'n croesawu'r dull gweithredu newydd, tryloyw hwn o ran y tanwariant o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau. Tudalen 28

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y Memorandwm Esboniadol a roddwyd i'r Pwyllgor ond mae'n gobeithio, wrth lunio Amcangyfrifon a chyllidebau atodol yn y dyfodol, y bydd yr Ombwdsmon yn myfyrio ar argymhellion y Pwyllgor Cyllid ynghylch sut y dylid cyflwyno ei gyllideb a pha wybodaeth a roddir i ategu ei geisiadau. Tudalen 30

Trosolwg

1. Gosododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefyndd (y Gweinidog) Ail Gyllideb Atodol 2018-19 ar 5 Chwefror 2019. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnig nifer o newidiadau i'r Gyllideb Atodol Gyntaf ac mae'n cynnwys £809.1 miliwn ychwanegol ar gyfer adrannau. Cyflwynwyd Nodyn Esboniadol a thablau sy'n dangos dyraniadau'r prif grŵp gwariant (PGG) i gyd-fynd â'r Gyllideb Atodol hon. Mae'n nodi hefyd nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn ac yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF).
2. Mae'r portffolios adrannol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu ethol y Prif Weinidog presennol a sefydlu'r Cabinet newydd.
3. Craffodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 ar 27 Mehefin 2018. Ni wnaeth y Pwyllgor argymhellion o ganlyniad i'r gwaith craffu hwnnw, ond daeth i saith casgliad, yr ailadroddodd un ohonynt werth gwaith craffu ar y gyllideb atodol honno.

Newidiadau i linell sylfaen refeniw

4. Mae cyllid Adnodd Cyllidol (arian parod refeniw) wedi cynyddu swm net o £64.6 miliwn i £13.3 biliwn. Mae hyn yn cynnwys:
 - **Cynnydd £98.1 miliwn** yn ymwneud â chyllid canlyniadol Llywodraeth y DU (gan gynnwys: £47.3 miliwn oherwydd setliad cyflog y GIG; £20.6 miliwn oherwydd ymadawiad y DU â'r UE; ac £8.7 miliwn mewn perthynas â chyflog athrawon).
 - **Cynnydd £30 miliwn** o Drysorlys EM yn ymwneud â chynnydd mewn atebolrwydd hawliadau anaf personol oherwydd y newidiadau i'r gyfradd ddisgownt.
 - **Gostyngiad net £20.3 miliwn** o drosglwyddiadau gydag adrannau llywodraeth eraill (gan gynnwys: £24.8 miliwn i'r Adran Drafnidiaeth yn ymwneud ag addasiad tâl mynediad newydd y fasnachfaint rheilffyrdd, a chynnydd £3.4 miliwn o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â "Dysgu ar gyfer Troseddwyr" yn CEM Berwyn).
 - **Gostyngiad net £43.2 miliwn** yn ymwneud â phedwar o "newidiadau cyllideb" yn DEL Llywodraeth Cymru (gan gynnwys: £48 miliwn oherwydd ail-ddosbarthu ymchwil a datblygu fel cyfalaf o refeniw; cynnydd cyfalaf £24.8 miliwn i refeniw yn ymwneud â'r addasiad tâl

mynediad; £12 miliwn o adnoddau i newid cyfalaf yn ymwneud â'r gwasanaeth iechyd; a refeniw £8 miliwn i gyfalaf i reoli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn).

- **Cynnydd £5.4 miliwn** yn ymwneud â'r Gordal Iechyd Mewnfudo (yn cynnwys £4.4 miliwn gan y Swyddfa Gartref ac £1.1 miliwn gan Drysorlys EM).
- **Gostyngiad £5.3 miliwn** yn ymwneud â diwygiadau yn yr Addasiad Grant Bloc.

5. Mae'r llinell sylfaen refeniw nad yw'n arian parod (anghyllidol) wedi cynyddu £240 miliwn. Mae hyn yn ymwneud ag effaith codi trothwy ad-dalu'r benthyciad myfyrwyr ac mae'n dod o Drysorlys EM.

Newidiadau i linell sylfaen cyfalaf

6. Mae cyfalaf cyffredinol wedi cynyddu £104 miliwn i £1.7 biliwn, gan gynnwys:

- £57.2 miliwn yn symiau canlyniadol Llywodraeth y DU;
- cynnydd net £43.2 miliwn mewn newidiadau cyllideb;
- cynnydd net £3.5 miliwn yn ddyledus o drosglwyddiadau gydag adrannau llywodraeth eraill (gan gynnwys £2.1 miliwn gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni).

7. Bwriedir tynnu £50 miliwn o Gronfa Wrth Gefn Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf cyffredinol.

1. Strategaeth a chynllunio

Newidiadau i'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol

8. Mae cyllidebau'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) yn adlewyrchu rhagolygon diweddaraf Trysorlys EM. Mae'r addasiadau a wnaed ers y gyllideb atodol gyntaf yn cynnwys:

- cynnydd £53 miliwn ar gyfer namau a darpariaethau ar gyfer y GIG yng Nghymru;
- gostyngiad £2 filiwn mewn perthynas â phensiynau'r gwasanaeth tân;
- cynnydd £3 miliwn mewn perthynas â darpariaethau pensiynau Gyrfa Cymru;
- gostyngiad £6.1 miliwn mewn perthynas â namau ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd;
- cynnydd net £12.3 miliwn ar gyfer Benthyciadau Myfyrwyr.

Blaenoriaethau cyllidebol

9. Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae Deddf LICD yn rhoi saith nod llesiant ar waith y mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus weithio i'w cyflawni a'u hystyried wrth wneud eu holl benderfyniadau, a phum ffordd o weithio i gyflawni'r nodau hynny.

10. Yn hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol, sef "Ffyniant i Bawb". Mae iddi bedair elfen; Ffyniannus a Diogel, Unedig a Chysylltiedig, Iach ac Egniol, ac Uchelgeisiol ac yn Dysgu. Roedd y ddogfennaeth ynghylch cyllideb 2019-20 yn canolbwyntio ei naratif ar y pedair thema allweddol a'r chwe maes blaenoriaeth a nodwyd yn Ffyniant i Bawb. Nid yw'r Ail Gyllideb Atodol yn dilyn y fformat hwn.

11. Yn dilyn gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2019-20, argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos sut y mae'n sefydlu Deddf LICD wrth wneud penderfyniadau, yn ogystal â phwysleisio y dylai'r Aseiad Effaith Integredig Strategol ddangos yn glir sut y mae egwyddorion Deddf LICD yn cael eu cymhwyso. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y cyntaf o'r argymhellion a derbyniodd yr ail argymhelliad mewn egwyddor.

12. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y llywiodd Ffyniant i Bawb a Deddf LICD y dyraniadau. Dywedodd y Gweinidog:

“The supplementary budget aligns our spending very much to ‘Prosperity for All’ and our programme for government. And in making decisions which relate to spend, officials, at every point in the process, will look at it through the lens of the future generations Act, for example, to ensure that we are delivering value for money in that respect.”¹

13. Esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a pharhaodd:

“We do think about the long term, and we can demonstrate that we do that through work with people and communities, taking a preventative approach to try and stop problems happening in the first place, and also taking a much more joined-up, cross-Government and cross-public sector approach to the budget.”²

14. O ran enghreifftiau penodol o sut y mae'r dyraniadau'n adlewyrchu dull gweithredu cenedlaethau'r dyfodol Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog:

“Some specific examples of that, which you'll find in the second supplementary budget, would be our additional investment of £3.7 million for minority ethnic, Gypsy/Roma/Traveller learners, for example, together with funding of £4 million for free school meals, which supports our ambitions to ensure that all children have the best possible start in life. You'll have seen allocations made within the health department, for example, clearly, again, also aligned with these goals. And £4 million for further work on the public sector broadband aggregation, which will improve digital connectivity within communities as well. So, all very much focused on delivering the aspirations of the future generations Act, whilst also consulting with the commissioner in the way that we work.”³

15. Cadarnhaodd y Gweinidog y gwneir yr holl benderfyniadau yng nghydestun Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodol.⁴

¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 8

² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 34

³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 34

⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 35

16. Dywedodd y Gweinidog fod y dull gweithredu o ran Deddf LICD yn broses esblygiadol⁵ a bod mwy o waith i'w wneud⁶.

17. O ran lefel y manylion a gynhwysir yn y gyllideb atodol, roedd y Gweinidog yn credu bod y gyllideb yn dryloyw:

“As I said earlier on, many of the decisions that are put before people in the second supplementary budget have been made by Ministers in-year and have been scrutinised in the Chamber. A number of these things, for example, I announced in the draft budget. The opportunity was there to discuss those and debate those in the Chamber.”⁷

Cronfeydd wrth gefn/Cronfeydd heb eu dyrannu a'u cario ymlaen

18. Dangosir adnodd/cyfalaf heb ei ddyrannu yn yr Ail Gyllideb Atodol yn Nhabl 1 a'i gymharu â chronfeydd wrth gefn yn ail gyllideb atodol 2017-18:

Cronfa wrth gefn/heb ei dyrannu	£ miliwn	
	Ail Gyllideb Atodol 2017-18	Ail Gyllideb Atodol 2018-19
Adnodd cyllidol	145.0	35.4
Adnodd anghyllidol	118.0	146.2
Cyfalaf cyffredinol	38.0	0.7
Cyfalaf trafodiadau ariannol	151.8	10.3

Tabl 1: Cronfeydd wrth gefn/heb eu dyrannu yn yr ail gyllideb atodol⁸

19. Pan ofynnwyd iddynt pam y mae'r cronfeydd hyn gymaint yn is eleni na'r llynedd, esboniodd y Gweinidog:

“... the reason why reserves are different this year from last year is because, in the previous financial year, we were looking to set up the Wales reserve, which we have now, in terms of the multi-annual reserve, which was a new tool for us at that point. So, that's why the reserves was so much higher at that point in order to transfer money to that to try and maintain the maximum reserve that we could.”⁹

⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 39

⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 41

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 45

⁸ Ffynhonnell: [Ail Gyllideb Atodol 2017-18](#) ac [Ail Gyllideb Atodol 2018-19](#)

⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 88

20. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn gyfforddus gyda lefel y cronfeydd wrth gefn.¹⁰

Safbwynt y Pwyllgor

21. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwireddu uchelgeisiau Deddf LICD yn broses barhaus a thymor hir. Fodd bynnag, mae'n siomedig nad oes fawr o dystiolaeth ynghylch sut y mae Deddf LICD yn cael ei hystyried wrth wraidd holl benderfyniadau Llywodraeth Cymru.

22. Erbyn hyn, mae Deddf LICD wedi bod ar waith ers tair blynedd, felly mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'n dderbyniol bellach i Lywodraeth Cymru nodi natur dymor hir y ddeddfwriaeth fel rheswm pam nad yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei hystyried yn llawn mewn penderfyniadau cyllid a gwariant.

23. Mae'r Pwyllgor yn siomedig bod Llywodraeth Cymru yn credu bod cyhoeddiadau gweithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y gyllideb atodol yn ddigonol yn lle naratif cynhwysfawr o'r gyllideb yn y cylch. Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad yw, o bosibl, yn briodol cynnwys lefel y manylder mewn cyllideb atodol a geir yn y cyllidebau drafft neu derfynol, ond y dylai'r gyllideb atodol ddangos gwaith cynllunio strategol cyffredinol Llywodraeth Cymru o'i chyllid. Mae hyn yn cynnwys dangos pam mae'r blaenoriaethau a geir yn y gyllideb atodol wedi'u hariannu a sut y mae'r penderfyniadau cyllido hyn yn bodloni amcanion Ffyniant i Bawb.

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai cyfanswm y cronfeydd sydd heb eu dyrannu yn ail gyllideb atodol 2018-19 yw £192.5 miliwn. Mae hyn yn cymharu â £452.8 miliwn a ddaliwyd yr un adeg yn 2017-18. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn teimlo bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r gyllideb fod yn fwy tryloyw yn y modd y mae'n cyflwyno adnoddau heb eu dyrannu a chronfeydd wrth gefn Cymru i sicrhau y darperir darlun mor llawn â phosibl o ran cyllid.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cynllun pennu amcanion cynhwysfawr ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, o ran cyllidebu, erbyn diwedd y Cynulliad hwn.

¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 90

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys ei gwybodaeth am y gyllideb atodol yn y dyfodol gyda'r bwriad o gysoni ei naratif yn nes â'r cyllidebau drafft a therfynol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am lefel gyffredinol cronfa wrth gefn Cymru yn ei holl naratifau cyllidebol.

2. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Newidiadau yn y gyllideb atodol hon

25. Mae newidiadau i adnoddau ym maes lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys cynnydd net £74.1 miliwn mewn adnoddau ac arian parod a £1.5 miliwn mewn adnoddau anghyllidol. Bydd cyfalaf cyffredinol yn cynyddu £66.7 miliwn. Yn y PGG, mae £100.6 miliwn wedi trosglwyddo o LIWG Addysg a Hyfforddiant, a £3.9 miliwn o LIWG Dyraniadau Craidd y GIG i sefydlu corff newydd “Addysg a Gwella Iechyd Cymru”.

Pwysau’r gaeaf

26. Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn ychwanegol i helpu i leddfu pwysau’r gaeaf. Mae hyn yn rhan o’r £15 miliwn o gyllid blynyddol newydd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd:

“Pan gyhoeddais y £15m o gyllid a’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Gorffennaf, roeddwn am i ni gael gafael canolog mwy cadarn er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau cywir yn cael eu darparu yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir er mwyn sicrhau gwasanaethau mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae’r arian rwy’ wedi ei gyhoeddi heddiw yn dangos yr uchelgais hwnnw ar waith, ac rwy’n gobeithio y bydd yr arian sydd wedi’i ddyrannu i helpu i wella gallu gofal critigol yn gwneud gwahaniaeth go iawn y gaeaf hwn.”¹¹

27. Mae’r gyllideb atodol hon yn dyrannu £4 miliwn i LIWG Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer pwysau’r gaeaf. Hefyd, cafodd £16 miliwn arall ar gyfer pwysau’r gaeaf ei gyhoeddi ddiwedd mis Hydref. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“fe wnes i’r penderfyniad i ddyrannu’r arian hwn yn gynharach eleni i sicrhau bod timau iechyd a gofal lleol mor barod ag y gallan nhw fod ar gyfer y gaeaf sydd i ddod.”¹²

¹¹ Llywodraeth Cymru, Datganiad newyddion, £5 miliwn i helpu i leddfu’r pwysau ar ofal critigol y gaeaf hwn, 17 Hydref 2018

¹² Llywodraeth Cymru, Datganiad newyddion, £20 miliwn i gefnogi GIG Cymru a’i bartneriaid y gaeaf hwn, 25 Hydref 2018

28. Gwnaed cyhoeddiad ym mis Ionawr 2019 yn pwysleisio perfformiad dros y Nadolig. Nododd y cyhoeddiad fod y gwasanaeth wedi bod dan lai o bwysau dros y cyfnod hwn na'r llynedd, yn brysurach na phum mlynedd yn ôl, ac y cafwyd nifer gymharol fawr o alwadau ambiwlans ym mis Rhagfyr.

29. Gofynnwyd i'r Gweinidog am y cyllid ychwanegol ar gyfer pwysau'r gaeaf a chadarnhaodd fod y cyllid hwn o fewn y PGG Iechyd. Dywedodd y swyddog cysylltiedig:

“There was £4 million that came from—in this supplementary budget, for social services winter pressures, which I think added to an allocation made within that MEG of £10 million, to bring it to £14 million overall. There was no additional funding specifically for winter pressures in this budget from central reserves.”¹³

30. Dywedodd y Gweinidog fod pwysau'r gaeaf yn wahanol bob blwyddyn a'i bod yn hollol briodol i'r Gweinidog Iechyd gynnal rhyw fath o hyblygrwydd, er mwyn gallu ymateb mewn ffordd ystwyth i'r pwysau penodol hynny, flwyddyn ar ôl blwyddyn.¹⁴

Dyletswyddau ariannol ar fyrddau iechyd

31. Mae'n ofynnol i gyrff y GIG yng Nghymru (yn unol â Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014) fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl tair blynedd. Y sefyllfa gyfanredol ar gyfer yr holl Fyrddau Iechyd Lleol (BILL) ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2016-17 oedd gorwariant net £253 miliwn. Ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2017-18, roedd y gorwariant wedi cynyddu i £365 miliwn.

32. Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol “Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol”, sy'n nodi cynllun tymor hir Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn “Adroddiad Terfynol yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru”.

33. Mae Tabl 2 isod yn nodi'r alldro a ragwelir ar gyfer 2018-19 ym mis 9, Rhagfyr 2018. Mae BILL yn adrodd diffyg disgwylidig cyfanredol £90.4 miliwn.

¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 64

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 61

Tabl 2: Perfformiad Ariannol Byrddau Iechyd Lleol (2018-19)

	£ miliwn, (gorwariant)/tanwariant		
	Cynllun Blynyddol 2018-19	Sefyllfa ym:	Alldro hyd yn hyn, 2018-19
PABM ¹⁵	(10.0)	Mis 9	(13.8)
Aneurin Bevan	0.0	Mis 9	(0.6)
Betsi Cadwaladr	(35.0)	Mis 8	(26.6)
Caerdydd a'r Fro	(9.9)	Mis 9	(7.4)
Cwm Taf	0.0	Mis 9	0.0
Hywel Dda	(35.5)	Mis 9	(27.2)
Powys	0.0	Mis 9	(0.8)
Tanwariant/(gorwariant) net ¹⁶	(90.4)		(76.4)

34. Y llynedd, gan ymateb i gwestiynau ar orwariant mewn BILL, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd:

“What I think you will see, I believe, at the end of this year—I remain confident that, at the end of this year, you will find that, in the round, health organisations in Wales have lived within the totals available to them. So, there has not been a further rise in overspending in the health service in that way. Then, the ambition of the health Secretary is, with the extra investment that we are giving him, that that will be on a downward trajectory now, over the next small number of years.”¹⁷

35. Ar 2 Awst 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £6.8 miliwn o gyllid ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nod y cyllid hwn oedd atgyfnerthu darpariaeth y Bwrdd Iechyd o ofal wedi'i gynllunio a heb ei drefnu. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnwys £24 miliwn ar gyfer cymorth mesurau arbennig BIP Betsi Cadwaladr.

36. Cadarnhaodd y Gweinidog nad yw'r PGG Iechyd wedi cael cyllid ychwanegol i gefnogi diffygion y GIG.¹⁸

37. Wrth edrych ymlaen, dywedodd y Gweinidog:

¹⁵ Mae paragraff 3.1.1 yn nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi gostwng ei ddiffyg diwedd blwyddyn a ragwelir i £10 miliwn yn dilyn darpariaeth cyllid ychwanegol afreolaidd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pwysau a pherfformiad y gwasanaeth

¹⁶ Ffynhonnell: Adroddiadau misol y Bwrdd Iechyd perthnasol

¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2018, paragraff 78

¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 68

“... we are optimistic that the number of organisations in deficit and the level of the overall deficit will be reduced further from what we have seen in this current year. All NHS organisations have submitted their plans for the next financial year, and they are currently being reviewed by officials. There do remain challenges in Besti Cadwaladr and Hywel Dda health boards, as you’ll be very aware, and it was expected that some provision will need to be made in the health and social services budget next year, for continued overspends in these health boards. But officials do work closely with those health boards, and their finance departments, to seek to support them.”¹⁹

Safbwynt y Pwyllgor

38. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall pwysau'r gaeaf amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond, yn y DU, gellir rhagweld y mathau hyn o bwysau i raddau helaeth a dylai gwaith cynllunio effeithiol gan y Gweinidog Iechyd gyda BILL sicrhau nad oes angen cyllid sylweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Aelodau'n pryderu y gallai'r PGC Iechyd fod yn gronfa wrth gefn ynddo'i hun i ddarparu cyllid ychwanegol ym maes iechyd.

39. Mae'r Pwyllgor yn credu bod rhoi darlun mor gyflawn ag y bo modd i BILL o'u cyllid, gan gynnwys cyllid Pwysau'r Gaeaf a ddisgwylir, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn ddull gwell a mwy effeithlon na dyrannu'r cyllid hwn yn ystod y flwyddyn.

40. Mae'r Pwyllgor yn nodi optimistiaeth y Gweinidog y bydd sefyllfa'r BILL sydd â diffyg ar hyn o bryd yn gwella. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu mai dim ond drwy gamau rheoli a monitro ariannol digonol y bydd y camau gofynnol yn cael eu cyflawni, ac y dylai'r Gweinidog Cyllid gael rôl weithredol yn hyn o beth oherwydd lefel y cyllid ym maes iechyd.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwaith cynllunio ariannol yn cyfrif am wariant rhagweladwy ar bwysau'r gaeaf cyn gynted â phosibl yn y broses gyllidebu.

¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 69

3. Yr Economi a Thrafnidiaeth

Newidiadau yn y gyllideb atodol hon

41. Mae'r newidiadau i'r adnodd ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth yn gynydd net £36.1 miliwn mewn adnoddau ac arian parod. Mae'r newidiadau i'r cyfalaf ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth yn gynydd net £71.8 miliwn mewn cyfalaf cyffredinol a £83.7 miliwn mewn trafodion ariannol.

42. Yn y PGG, mae £25 miliwn o gyfalaf wedi trosglwyddo i LIWG Adeiladu a Gwella Ffyrdd Newydd (£16 miliwn o LIWG Rheilffyrdd a Buddsoddi a £9 miliwn o LIWG Gweithrediadau Seilwaith TGCh). Mae'r Gyllideb Atodol yn nodi y bydd y symiau hyn yn cael eu dychwelyd yn 2019-20.

Cyllid ffyrdd

43. Mae'r cyfalaf ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth yn cynnwys £27.8 miliwn ar gyfer LIWG Adeiladu a Gwella Ffyrdd Newydd yn ymwneud â "[ch]wblhau'r broses statudol a gweithgareddau hanfodol fel arolygon amgylcheddol mewn perthynas â'r M4".²⁰

44. Pan ofynnwyd a oedd penderfyniad ar Ffordd Liniaru'r M4 wedi'i wneud ym mis Chwefror 2019, dywedodd y Prif Weinidog y canlynol:

"... n[i]d wyf i wedi gweld yr adroddiad nac wedi gweld dim o'r cyngor ategol ... byddaf yn gwneud penderfyniad yn y ffordd orau bosibl. Byddaf yn ei wneud gan roi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau sy'n cyfrannu at ei wneud, a byddaf yn ei wneud yn y ffordd orau y gallaf."²¹

45. Gofynnwyd i'r Gweinidog am yr arian a ddyrannwyd ar gyfer gwaith paratoadol ar yr M4. Dywedodd fod yr arian ar gyfer gweithgareddau amrywiol i baratoi ar gyfer posibilrwydd penderfyniad cadarnhaol.²² Nododd y Gweinidog enghreifftiau lle roedd yr arian wedi'i neilltuo gan gynnwys data arolwg ecolegol, dargyfeiriadau cyfleustodau, cytundebau rhyngwyneb Network Rail, costau Cyfoeth Naturiol Cymru a chymorth i fusnesau.²³

²⁰ Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2018-19, Nodyn Esboniadol, paragraff 5.6.

²¹ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 5 Chwefror 2019, paragraff 25

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 104

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 105-106

46. Gofynnwyd i'r Gweinidog am ei thrafodaethau â'r Prif Weinidog ar ffordd liniaru'r M4. Cadarnhaodd nad oedd wedi siarad â'r Prif Weinidog am y mater ers eu trafodaethau ym mis Rhagfyr ar ei rôl yn y Cabinet,²⁴ ond mae'n cael trafodaethau â swyddogion ar y cynigion²⁵.

47. Mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu y byddai'n adolygu pwerau benthycu cyfalaf Llywodraeth Cymru ac y byddai'n ystyried cynyddu terfynau benthycu o £300 miliwn i gefnogi'r broses o ddatblygu ffordd liniaru'r M4.

48. Pan ofynnwyd iddo am y cynnydd posibl hwn mewn terfynau benthycu, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

“...in terms of the £300 million that the UK Government has referred to, I would say it really is not the role of the UK Government to be stipulating how the Welsh Government spends any of its money, even if it is loan money, for example, or borrowed money. That is because it's for Welsh Government to put proposals to this National Assembly for decision, rather than seeking any kind of input from the UK Government on our spending plans.”²⁶

49. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ac, fel rhan o'r trafodaethau hynny, y byddai'r Gweinidog yn trafod terfynau benthycu.²⁷

Safbwynt y Pwyllgor

50. Mae'r Pwyllgor yn synnu na chafwyd trafodaethau rhwng y Gweinidog a'r Prif Weinidog o ran cynllunio ar gyfer ffordd liniaru bosibl yr M4, yn enwedig gyda'r cyllid ychwanegol y mae'r gyllideb atodol hon yn ei neilltuo. Mae swm sylweddol o arian yn cael ei wario yn ystod y cyfnod paratoi, ac mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cynnal trafodaethau i ystyried ariannu'r cynllun yn y tymor hir cyn y penderfyniad i fwrw ymlaen neu beidio.

51. Os bydd y ffordd liniaru'n mynd rhagddi, mae'n amlwg y bydd yr arian yn elfen sylweddol ac yn effeithio ar gapasiti benthycu Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cytuno na ddylai Llywodraeth y DU allu cyfarwyddo blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru, ond mae hefyd yn amlwg y bydd angen cynyddu terfynau benthycu os bydd y cynllun yn mynd rhagddo. Byddai'r Pwyllgor yn

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 113

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 115

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 121

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 122

croesawu diweddariad ar drafodaethau â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar ôl iddynt gael eu cynnal.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch lefel y cyllid sy'n cael ei neilltuo i brosiect pan fo cymaint o ansicrwydd ac yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o fanylion ar y gwaith cynllunio ar gyfer yr M4. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurder ynghylch a fuasai angen y cyllid ychwanegol pe bai penderfyniad wedi'i wneud ar yr adeg y bwriadwyd yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2018, a faint o arian ychwanegol y gall fod angen ei neilltuo cyn y gwneir penderfyniad.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch i fwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4 neu beidio ond, os mai'r bwriad yw bwrw ymlaen â'r cynllun, y byddai'n argymhell bod y Gweinidog Cyllid a'r Prif Weinidog yn dechrau trafodaethau ar gynllun ariannu tymor hir ar gyfer ffordd liniaru'r M4.

4. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

52. Bydd adnodd cyllidol i'r PGG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cynyddu £30.9 miliwn. Bydd adnodd anghyllidol yn cynyddu £3.9 miliwn ac mae £390,000 ychwanegol o drafodion ariannol wedi'i ddyrannu i'r PGG.

Y cynllun ymadael gwirfoddol

53. Mae'r cynnydd yn cynnwys £9.5 miliwn i gefnogi gwaith ad-drefnu'r gweithlu. Esboniodd y Gweinidog y byddai hyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynllun ymadael gwirfoddol,²⁸ gyda'r posibilrwydd o greu swyddi ychwanegol ar gyfer Brexit²⁹.

54. Esboniodd swyddog y Gweinidog y byddai'r cynllun yn ceisio dod â sgiliau newydd i Lywodraeth Cymru ac, oherwydd bod y cynllun yn barhaus, nad oes ffigurau ar arbedion na chostau gwirioneddol,³⁰ ond dywedodd y Gweinidog y byddai arbedion yn cael eu disgwyl³¹.

Buddsoddi i Arbed

55. Mae'r gyllideb atodol yn cynnwys trosglwyddiad net £2.4 miliwn i'r PGG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â Buddsoddi i Arbed. Pan ofynnwyd am yr arian a gynhwysir ar gyfer Buddsoddi i Arbed a sut y mae'r gronfa'n gweithio, dywedodd y Gweinidog fod canlyniadau da'n cael eu cyflawni, ond bod angen meddwl ymhellach ynghylch sut y caiff y canlyniadau eu prif ffrydio³² a dod yn rhan o'r ffordd arferol rydym yn gwneud pethau³³.

Safbwynt y Pwyllgor

56. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ceisio ad-drefnu'r gweithlu gyda'r cynllun ymadael gwirfoddol, ond y byddai'n disgwyl i gynllun o'r gwerth hwn arwain at arbedion i'r sefydliad.

57. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i drafod potensial y cynllun Buddsoddi i Arbed a bydd yn trafod rhagor o adroddiadau a gwybodaeth am y mater hwn pan

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 184

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 187

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 185

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 189

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 200

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 202

fyddant ar gael. Yn hyn o beth, byddai'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw wybodaeth yr hoffai Llywodraeth Cymru ei rhoi am hynt y prosiectau a llwyddiant y cynllun hyd yn hyn.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad y cynllun ymadael gwirfoddol, sy'n cynnwys sut y defnyddiwyd y cyllid, faint o bobl a adawodd y sefydliad, faint o swyddi Brexit a gafodd eu creu a pha arbedion a gyflawnwyd neu a fydd yn cael eu cyflawni.

5. Brexit

58. Mae'r Gyllideb Atodol yn nodi Symiau Canlyniadol £20.6 miliwn y DU mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r UE. Mae hefyd yn nodi £6.3 miliwn mewn trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn sy'n ymwneud â chronfeydd trosiannol yr UE. Mae £5 miliwn wedi trosglwyddo o Gysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg i Wasanaethau Canolog a Gweinyddu o ran costau pontio.

59. Mae dyraniadau unigol sy'n ymwneud â chostau pontio ar ôl ymadael â'r UE yn cynnwys: £1.4 miliwn ar gyfer cyllid Cyflogadwyedd a Sgiliau (£750,000 i Airbus a £600,000 i Ford); £132,000 ar gyfer cydnerthedd busnes; £50,000 ar gyfer meithrin capasiti ar y cyd; £1.8 miliwn ar gyfer meincnodi cig coch; ffrydiau ariannu amrywiol ym maes lechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol gwerth £398,000 i gyd; £435,000 ar gyfer cydnerthedd partneriaeth yr heddlu; £150,000 ar gyfer CLILC; £787,000 ar gyfer cyllid Global 2; £280,000 ar gyfer cymorth ar-lein allforio; £250,000 ar gyfer gwasanaethau allforio gwell; £100,000 ar gyfer gwybodaeth fasnachol a chwmpasu marchnad nad yw'n rhan o'r UE; £100,000 ar gyfer amnewid mewnforio; £96,000 ar gyfer tystysgrifau iechyd allforio; £90,000 ar gyfer sectorau pysgodfeydd a dyframaethu Cymru; £150,000 ar gyfer y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd; £100,000 ar gyfer prosiect hawliau dinasyddion; a £45,000 ar gyfer "grymuso cymunedau yng nghyd-destun Brexit". Mae £3.8 miliwn hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer rheoli cronfeydd strwythurol yr UE.

60. O ran symiau canlyniadol oherwydd cyllid Brexit, nododd y Gweinidog y canlynol:

"...in December 2018, the UK Government informed us that we would have a £30.1 million Barnett consequential as a result of the UK Government's spend on Brexit. This is £10 million more than we received last year, so we're currently exploring how best to deploy that. The decision was made with the previous money related to Brexit that, actually, we would be using it for Brexit purposes within our own budget..."³⁴

61. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi prosiectau a fydd yn cefnogi costau pontio Brexit. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gwneud rhagor o gyhoeddiadau nawr ar gronfa bontio'r

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 173

UE yn y dyfodol agos iawn a bod y sylw presennol ar baratoi at Brexit posibl “heb gytundeb”.³⁵

62. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y byddai Brexit “heb gytundeb” yn effeithio ar gyllidebau Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

“I think the kind of Brexit that we have will clearly have a huge impact on budgets. A ‘no deal’ Brexit has been referred to and described as catastrophic many times, and I know that it will be hugely challenging for Welsh Government. So, certainly, we would be looking to UK Government for significant additional funding in the event of a ‘no deal’ Brexit. The Chancellor has referred to the spring statement as potentially being a major fiscal event – so, code, I suppose, for an emergency budget, depending on the outcome of the Brexit negotiations, again. So, we would expect there to be significant funding from the UK Government in order to help us support our organisations and businesses and so forth through a difficult period.”³⁶

63. Yn seiliedig ar yr ansicrwydd presennol, gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hyblygrwydd wedi'i gynnwys yng nghyllideb Llywodraeth Cymru i ateb gofynion cyllidol os bydd Brexit “heb gytundeb”. Dywedodd y Gweinidog:

“We’ve been careful over a number of years to ensure that we do have the maximum within our reserves and precisely for difficult periods that we find ourselves in. So, there is that, but, clearly, we would expect a greater input from the Treasury were there to be a ‘no deal’ Brexit.”³⁷

64. Cynhwysodd Llywodraeth Cymru adnoddau ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â Brexit yng nghyllideb ddrafft 2018-19, gwerth £5 miliwn dros ddwy flynedd. Mae'r gyllideb ddrafft fanwl ar gyfer 2019-20 yn nodi'r canlynol:

“Roedd y cytundeb cyllideb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru yn dyrannu £5m ar gyfer paratoi am Brexit, gan gynnwys cymorth i fusnesau, dros ddwy flynedd. Bydd yr arian hwn yn cael ei fuddsoddi mewn porth Brexit, gan adeiladu ar yr wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan Busnes Cymru i gefnogi busnesau i baratoi ar gyfer Brexit. Datblygodd Llywodraeth Cymru ap i helpu'n busnesau bwyd a diod i ystyried y camau y bydd angen eu

³⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 171

³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 175

³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 14 Chwefror 2019, paragraff 177

cymryd cyn Brexit. Rydym hefyd yn ehangu ein gweithrediadau dramor i ddiogelu marchnadoedd presennol.”

65. Cyhoeddodd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad ar Fanc Buddsoddi Ewrop (BBE) ar 5 Chwefror 2019. Mae hyn yn nodi'r canlynol:

“...the EIB has played a significant role in the UK economy in the last 20 years and particularly over the last decade. This raises the prospect that there could be a financing gap both for infrastructure projects and SMEs once the UK loses access to the EIB after March 2019; indeed, the decline in funding since 2016 suggests that this gap may already be materialising.”³⁸

66. Trafododd y Pwyllgor berthynas Cymru â BBE yn y dyfodol yn ystod gwaith craffu ar y Gyllideb Atodol Gyntaf, gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd yn nodi bod Llywodraeth Cymru bob amser wedi dadlau i'r DU barhau i fod yn bartner sy'n tanysgrifio.³⁹

Safbwynt y Pwyllgor

67. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r swm canlyniadol llawn sy'n ymwneud â Brexit ar gyfer paratoadau i adael yr UE. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod ansicrwydd ynghylch natur ymadawiad y DU â'r UE ar lefel y DU yn gosod risg sylweddol ar waith cynllunio Llywodraeth Cymru.

68. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei sylwadau ar ôl gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2019-20, bod yn rhaid i'r gyllideb fod yn hyblyg er mwyn bodloni ystod o bosibiliadau a chanlyniadau penderfyniadau ar lefel y DU:

“Mae'r Pwyllgor yn nodi'r angen i'r gyllideb fod yn hyblyg o ran paratoi ar gyfer Brexit, ond mae'n argymhell bod y gyllideb atodol gyntaf yn 2019-20 yn darparu, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, grynodeb manwl o sut y mae cytundeb terfynol Brexit wedi llywio cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.”⁴⁰

69. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi sylwadau Llywodraeth Cymru y byddai'n edrych tuag at Lywodraeth y DU pe bai senario “dim cytundeb” i sicrhau unrhyw gyllid

³⁸ Tŷ'r Arglwyddi, Papur 269 Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: European Investment Bank, 31 Ionawr 2019 (Saesneg yn unig)

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 27 Mehefin 2018, paragraff 283

⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20, Tachwedd 2018

perthnasol a byddai'n disgwyl cael gwybod am ddatblygiadau pe bai'r sefyllfa hon yn codi.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu naratif mor llawn â phosibl yn ei chyllidebau yn y dyfodol ar ei gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE.

6. Comisiwn y Cynulliad

70. Ysgrifennodd Comisiwn y Cynulliad at y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2018 i ddweud y byddai newid i'w gyllideb ar gyfer 2018-19 drwy broses y gyllideb atodol. Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Esboniadol y Gyllideb Atodol yn ei gyfarfod ar 9 Ionawr 2019. Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, gosododd Comisiwn y Cynulliad y Memorandwm Esboniadol wedi hynny ar 17 Ionawr 2019.

71. Roedd y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys gostyngiad £500,000 mewn GRF a gostyngiad £500,000 ym Mhenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

72. Mae'r newid yn yr GRF yn ymwneud ag addasiad nad yw'n arian parod o ran atebolrwydd ariannol y cynllun pensiwn yn y dyfodol i Aelodau'r Cynulliad ac mae'n addasiad cyfrifyddu technegol.

73. Mae'r gostyngiad £500,000 sy'n ymwneud â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar y sail na fydd y £500,000 yn cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn. Mae Comisiwn y Cynulliad yn nodi'r canlynol yn ei ohebiaeth:

“... er yn sicr y byddai'n bosibl cyflwyno prosiectau blaenoriaeth i'r flwyddyn ariannol hon er mwyn defnyddio £500,000, rydym yn ymwybodol o'n hymrwymiad ynghylch unrhyw tanwariant yn erbyn Penderfyniad y Bwrdd Taliadau mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Yn unol â hynny, rydym yn mabwysiadu'r un egwyddor ar gyfer y swm nas defnyddir a nodwyd ar gyfer eleni; ni fyddwn yn tynnu'r £500,000 i lawr a chyflwyno'r gyllideb atodol hon i ddiwygio'r gyllideb a osodwyd yn wreiddiol.”⁴¹

Safbwynt y Pwyllgor

74. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i drafod y Memorandwm Esboniadol a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad cyn iddo gael ei osod, a chyn y bydd y Pwyllgor yn trafod cynnig y Gyllideb Atodol.

75. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gostyngiad £500,000 nad yw'n cael ei ddefnyddio i fodloni Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y dull gweithredu hwn yn fwy tryloyw.

⁴¹ Suzy Davies, Llythyr Comisiwn y Cynulliad a Memorandwm Esboniadol Gyllideb Atodol 2018-19, 18 Rhagfyr 2018

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth ym Memorandwm Esboniadol Cyllideb Atodol 2018-19 Comisiwn y Cynulliad, ac mae'n croesawu'r dull gweithredu newydd, tryloyw hwn o ran y tanwariant o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau.

7. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

76. Yn unol â [Rheol Sefydlog 20.36](#), cyflwynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) [Femorandwm Esboniadol](#) i'r Pwyllgor Cyllid ar 3 Rhagfyr 2018.

77. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Esboniadol yn ei gyfarfod ar [9 Ionawr 2019](#). Nododd y Pwyllgor fod y Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cronfeydd yn cael eu symud rhwng refeniw a chyfalaf. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd £204,000 o gyllid cyfalaf ar gyfer caledwedd a meddalwedd TGCh, a gafwyd o ostyngiadau ar draws ystod o gategoriâu ar gyfer cyllid refeniw.

78. Nododd y Pwyllgor na roddwyd manylion ar gyfer cynnydd £38,000 i gyflogau a chostau cysylltiedig, ac wedi hynny ysgrifennodd at OGCC yn ceisio eglurder.⁴²

79. Ymatebodd yr Ombwdsman gan nodi, wrth baratoi'r Memorandwm Esboniadol, ei fod wedi dilyn cyngor gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Nododd hefyd fod osgoi'r angen i'r Pwyllgor drafod newidiadau llai, manwl yn y ffordd y mae'r gyllideb yn cael ei hehangu'n cynnal annibyniaeth y swyddfa. Fodd bynnag, gwnaeth gydnabod gwahaniaeth clir rhwng yr angen i gynnal yr annibyniaeth hon, yn ganfyddedig ac yn wirioneddol, a'i awydd i fod yn agored ac yn atebol ynghylch ei ddefnydd o arian cyhoeddus.⁴³

80. Aeth ymlaen i esbonio bod y cynnydd mewn cyflogau a chostau cysylltiedig, sef £38,000, yn ymwneud yn bennaf â phenodi cyfieithydd mewnol yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau cyfieithu allanol ac i wella gwasanaethau yn y Gymraeg.

81. Wrth roi tystiolaeth ar ei Amcangyfrif ar gyfer 2019-20, gofynnwyd i'r Ombwdsman am y cynnydd disgwylidig mewn costau staff. Dywedodd Cyfrifydd Ariannol yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor y daethpwyd â rhai gwasanaethau, megis cyfieithu Cymraeg, yn fewnol, felly byddai'r gost bellach yn cael ei thalu fel costau staff yn hytrach na chostau eraill.⁴⁴

⁴² [Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru](#), 14 Ionawr 2019

⁴³ [Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid](#), 17 Ionawr 2019

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Hydref 2018, paragraff 173-177

Safbwynt y Pwyllgor

82. Wrth gydnabod yr angen i swyddfa OGCC barhau i fod yn annibynnol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod mai, fel Swyddog Cyfrifyddu, yr Ombwdsman yw'r sawl y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei alw i gyfrif am stiwardiaeth adnoddau; mae'n atebol am ddefnyddio arian cyhoeddus.

83. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Cyllid, yn rhinwedd Rheol Sefydlog 20.36(ii), drafod a gosod y Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad. Os rhoddir Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor, mae'n rhesymol i'r Pwyllgor ofyn am fanylion yr holl newidiadau yn y ddogfen er mwyn sicrhau natur agored a thryloyw ym mhob cam o'r broses.

84. O ystyried natur y newid (o gostau eraill i gostau staff), yn ogystal â sylwadau'r Pwyllgor am y cynnydd yng nghostau staff a'i argymhellion ynghylch cyflwyno Amcangyfrifon yn y dyfodol a nodwyd yn ei adroddiad ar Amcangyfrif 2019-20, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl sylwadau yn y Memorandwm Esboniadol i esbonio pob newid o ran adnoddau.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y Memorandwm Esboniadol a roddwyd i'r Pwyllgor ond mae'n gobeithio, wrth lunio Amcangyfrifon a chyllidebau atodol yn y dyfodol, y bydd yr Ombwdsmon yn myfyrio ar argymhellion y Pwyllgor Cyllid ynghylch sut y dylid cyflwyno ei gyllideb a pha wybodaeth a roddir i ategu ei geisiadau.

Atodiad



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2il Cyllideb Atodol

Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cefndir

Cynhwyswyd cyllideb 2018-19 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y Symudiad Cyllideb Blyneddol o dan Reol Sefydlog 20.26, a osodwyd ar 19 Rhagfyr 2017 a'i ddiwygio yn y Gyllideb Atodol Gyntaf yn Ebrill 2018. Gofynnir am symud arian rhwng refeniw a chyfalaf fel a ganlyn:

Cyfalaf

Caledwedd

Mae'r angen am fuddsoddiad mewn uwchraddio isadeiledd TG, gan gynnwys gweinyddion a storfa wrth gefn/ datrysiadau adferiad, wedi'i amlygu'n flaenorol i'r Pwyllgor Cyllid. Bydd y Buddsoddiad hwn yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynhwysedd gweinydd cyfredol OGCC sy'n nesáu, a'r diffyg datrysiad adferiad TG gyflawn sy'n effeithlon a sydyn.

Meddalwedd

Bydd gwelliant sylweddol i system rheoli achosion OGCC yn cael ei gyflawni erbyn Mawrth 2019 sy'n gwella ymarferoldeb ac adrodd.

Ni ofynnir am unrhyw arian ychwanegol, ond throsglwyddiadau adnoddau ac arian o Refeniw i Gyfalaf DEL .

2 nd Cyllideb Atodol 2018-19	Adnodd	Arian
	£000s	£000s
Cyfalaf DEL	204	204
Refeniw DEL	-204	-204
Adnodd net/gofynion arian parod	-	-

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cyllideb Atodol 2018/19	Cyllideb Atodol Gyntaf 2018/19	2il Cyllideb Atodol 2018/19	Newid
	£'000	£'000	
Cyfalaf DEL	25	229	204
Refeniw Cyllidol DEL			
Cyflogau a chostau cysylltiedig	3,152	3,190	38
Adeilad	435	375	-60
Systemau cyfrifiadurol a chefnogaeth	225	160	-65
Costau swyddfa	130	110	-20
Costau cynghori a chyfreithiol	300	248	-52
Cyfathrebu	70	40	-30
Hyfforddiant a recriwtio	55	40	-15
Teithio a chynhaliaeth	40	40	0
Costau archwilio	20	20	0
Isgyfanswm	4,427	4,223	-204
Incwm	-62	-62	0
Cyfanswm Refeniw Cyllidol DEL	4,365	4,161	-204
DEL nad yw'n Arian			
Dibrisiant	70	70	0
Refeniw DEL (B+C)	4,435	4,231	-204
Cyfanswm DEL (A+B+C)	4,460	4,460	0
Gwariant a Reolir yn flynyddol (AME)			
Symudiad ar LGPS	0	0	0
Symudiad darpariaethau	20	20	0
Cyfanswm AME	20	20	0
Cyfanswm Gwariant a Reolir			
A+B+C+D	4,480	4,480	0
Adnoddau Gofynnol	4,480	4,480	0
Dibrisiant	-70	-70	0
Newid yn nharpariaethau	-20	-20	0
Symudiadau eraill yn y Cyfalaf gweithio	20	20	0
Gofyniad Arian Net	4,410	4,410	0